

CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH
21 Ionawr 2014, Gosen, Llangwyllog
am 7:30 y.h.

YN BRESENNOL: Y Cyngorwyr C McGregor, A Wyn, O Davies, D Pritchard, D ap Rhobert, D Morgan, G D Williams, M Huws, A Williams, W Vaughan, R G Parry (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D Roberts, M Lees, W Williams, D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirydd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng W Vaughan. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb yn cynnwys aelod newydd Cyng O Davies a Cyng R G Parry (Cyngor Sir)
2	DATGAN DIDDORDEB - Dim
3	DERBYN COFNODION Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 19 Tachwedd 2013. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng A Wyn yn eilio
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Torri gwair y maes chwarae a maes peldroed , Talwrn - penderfynwyd ystyried y mater yma yn y cyfarfod nesaf
4.2	Gor-yrru Talwrn a Llangwyllog - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir -
4.3	Tyn Beudy Talwrn - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir -
4.4	Y Wefan - Dywedodd y Clerc bod "Anglesey Computer Solutions" wedi adeiladu y wefan - www.llanddyfnan.org
4.5	Maes y Coed (torri coed) - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
5	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Cynllunio
5.1	23C313 cais llawn i newid defnydd y cyn ysgol i annedd, modurdy preifat a stablau yn Ysgol Ty Mawr, Capel Coch - dim sylwadau
5.2	41C125B/EIA/RE (Gwybodaeth ychwanegol) Cais llawn ar gyfer codi tri twrbîn wynt 800kw - 900kw gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 55m, dimaedr rotor hyd at uchafswm o 52m a uchder blaen unionsyth hyd at uchafswm o 81m, gwelliannau i'r fynedfa presennol i lon A5025, ynghyd a chodi 3 cabinet storio offer ar dir yn Bryn Eryr Uchaf, Porthaethwy
	Llofnod.....Cadeirydd 18.02.14

	<p>Penderfyniwyd gwrthwynebu y cais: Mae ceisiadau o'r fath fel hyn ddim i'w wneud â gwyddoniaeth newid yn yr hinsawdd. Maent yn ymwneud â ffermio cymhorthdal. Nid oes unrhyw fanteision i'r gymuned, dim ond i dirfeddianwyr. Mae maint a graddfa'r cais hwn yn llawer rhy uchel. Bydd y tyrbinau gwynt yn cael effaith weledol a'r sŵn a fydd yn effeithio ar fywyd gwylt, bydd yn cael unrhyw le yn y dirwedd wledig, a bydd yn cael ei weld am filltiroedd. Bydd yn cynhyrchu ychydig iawn o ynni. Bydd tyrbinau gwynt o'r maint hwn yn difetha harddwch yr Ynys. Byddant hefyd yn effeithio ar dwristiaeth. Mewn ardaloedd eraill lle mae ceisiadau wedi cael eu cymeradwyo, mae twristiaeth wedi gostwng gan 25%. Twristiaeth yw'r prif ddiwydiant ar yr Ynys. Gall tyrbinau gwynt cyfrannu tuag at broblemau iechyd, yn enwedig i'r rhai sy'n byw yn agos. Byddant yn lleihau gwerth yr eiddo yn yr ardal. Hefyd, mae; Cyngor ym teimlo bod codi 3 twrbin yn gwneud y prosiect yn farchnasol. Mae angen ynni cymunedol, fel engraifft defnyddio dwr i greu trydan.</p>
5.3	23C84C cais i bennu os oes angen caniatad blaenorol ar gyfer codi sied amaethyddol ar gyfer storio gwair, gwellt a peiriannau yn Penrhos, Maenaddwyn - dim sylwadau.
6	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
6.1	Unllais Cymru - agenda 29.1.14 (gwybodaeth yn unig)
7	MATERION ARIANNOL
	Penderfynwyd talu y canlynnol:
7.1	Yswiriant blynyddol £243.80
7.2	Gosen (Rhent) £100
7.3	H Hughes £66.40 (cyfieithu)
7.4	Penderfynwyd peidio codi y precept am y flwyddyn 2014/2015
8	MATERION ERAILL
8.1	Cyfarfod Cyhoeddus "Dim Peilonau" - Llanfairpwll 24.01.14 (gwybodaeth yn unig) Trafodwyd y mater yn fanwl iawn. Mae sylwadau y Cyngor wedi cael ei hanfon at y National Grid (gweler cofnodion y Cyngor 20.11.12)
8.2	Cyfarfod Cyswllt Cyngor Sir/Cynghorau Cymuned - Cynigodd Cyng D Pritchard a Cyng O Davies cynrychioli y Cyngor
8.3	Kiosk BT Llangwyllog. Dywedodd Cyng A Wyn bod angen twtio y kiosk oherwydd tyfiant drain ac ymlaen. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw BT
8.4	Arwydd dim cwn - Mae Cyng C McGregor wedi derbyn cwyn am cwn yn maeddu ym mynwent Llanddyfnan a bod angen arwydd dim cwn. Mae'r Clerc wedi cael arwydd gan y Cyngor Sir a bydd yn trefnu gosod yr arwydd
8.5	Yn dilyn y tywydd mawr mae bagiau ac ysbwriel ar hyd lon yr Ysgol ac o'r Tai Cyngor at y sgwar. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.
8.6	Mae dwr o'r ffoes wedi codi ar draws y lon rhwng Slieve Donard - Penterfyn a Penterfyn - Hendre Hywel. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir
8.7	Yn dilyn cwynion am tyllau yn y ffyrdd a ffosydd yn llawn, bydd y Clerc yn gofyn am polisi y Cyngor Sir
	Llofnod.....Cadeirydd
	18.02.14

--	--